OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1736 (Cy.170)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Gorffennaf 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol - -* | *3 Gorffennaf 2008* *Cymru* |
| *Yn dod i rym - -* | *Yn unol â rheoliad 1(2)* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 112 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), ac wedi gwneud trefniadau y maent yn eu hystyried yn briodol ar gyfer ymgynghori ynghylch y cynigion yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008.

(2) Daw darpariaethau'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) ar 1 Awst 2010 o ran disgyblion yn nhrydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen; a

(b) ar 1 Awst 2011 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae "cyfnod allweddol cyntaf" ("*first key stage*") i'w ddehongli yn unol ag adran 103(1) o Ddeddf 2002;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002; a

mae cyfeiriadau at y cyfnod sylfaen i'w dehongli'n unol ag adran 102 o Ddeddf 2002.

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

**Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1**

**3.** Nid yw gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer y cyfnod allweddol cyntaf fel y'u gosodir yn adran 105(1), (2), a (3) ac yn y Gorchmynion a wneir o dan adran 108(3)(**3**) o Ddeddf 2002 i fod yn gymwys o ran disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn ystod y blynyddoedd ysgol 2010 i 2011 a 2011 i 2012.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

1 Gorffennaf 2008

(**3**) O.S. 2000/1098 (Cy.76), O.S. 2000/1099 (Cy.77), O.S. 2000/1100 (Cy.78), O.S. 2000/1101 (Cy.79), O.S. 2000/1153 (Cy.84), O.S. 2000/1154 (Cy.85), O.S. 2000/1155 (Cy.86), O.S. 2000/1156 (Cy.87), O.S. 2000/1157 (Cy.88), O.S. 2000/1158 (Cy.89), O.S. 2000/1159 (Cy.90), O.S. 2002/45 (Cy.4).

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn a wneir o dan Ddeddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer datgymhwyso gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a bennir ar gyfer y cyfnod allweddol cyntaf yn adran 105(1), (2), a (3), a Gorchmynion a wneir o dan adran 108(3) o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir am y blynyddoedd ysgol 2010 i 2011 a 2011 i 2012.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar yr un pryd ag y cyflwynir y cyfnod sylfaen. Cyflwynir y cyfnod sylfaen ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008 i'r disgyblion hynny sy'n 3 i 4 oed, ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2009 i'r disgyblion hynny sy'n 4 i 5 oed, ar gyfer trydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2010 i'r disgyblion hynny sy'n 5 i 6 oed ac ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2011 i'r disgyblion hynny sy'n 6 i 7 oed.